# Yr arbenigwr Cymreig ar lestri arian a anghofiwyd

**D.G. LLOYD HUGHES** yn ei ddwyn i gof ei gydwladwyr

YN YSTOD fy machgendod gwyddwn fod gŵr go arbennig yn ymgartrefu yn y dref, gŵr tal tawel a boneddigaidd, hen lanc a hoffai grwydro o gwmpas Y Garn ar ei ben ei hun i sylwi ar ryfeddodau byd natur, ac hefyd a hoffai chwarae golff. Ei brif gyfaill oedd y diweddar Hugh John Owen, cyn glerc Cyngor Sir Feirionnydd. Adwaenid ef gan bawb fel Alfred Jones y Tŵr, gan mai yno, yng Ngwesty'r Tŵr, y gwnai ei gartref gyda'i fam weddw. Ei enw llawn oedd Edward Alfred Jones.

Ganed ef yn Llanfyllin yn 1872 yn fab i Thomas a Mary Jones, tafarnwyr; y tad yn enedigol o Chirbury, Swydd Amwythig, a'r fam o Feifod ym Maldwyn. Bu farw'r tad yn 1877. Addysgwyd Alfred Jones yn breifat; ni wyddys ymhle. A phan oedd tua deunaw mlwydd oed fe symudodd ei fam i gadw Gwesty'r Frenhines ym Mhorthmadog, ac yno y bu am tua phymtheg mlynedd cyn troi tua Phwllheli i gadw'r Tŵr. Bu farw Mary Jones yn 1928.

Bwriad cyntaf Alfred Jones oedd bod yn filwr a bu am gyfnod byr yn swyddog ieuanc gyda'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Ond sylweddolodd yn gynnar nad oedd ei fryd ar y bywyd hwnnw a sicrhaodd ei ryddhad. Ac o hynny ymlaen ymgysegrodd ei fywyd i arbenigo ar hen lestri aur ac arian. Ni wyddys pwy ai harweiniodd.

Treuliodd flynyddoedd yn trwytho ei hun yn y maes ac yr oedd dros ei ddeg ar hugain cyn dechrau cyhoeddi ffrwyth ei ymchwiliadau. Un o'r astudiaethau cyntaf ganddo i weld golau dydd oedd yn *Y Cymmrodor*, Cyfrol XVII (1904), ar lestri arian Coleg Iesu, Rhydychen.

Gwelodd yr un flwyddyn y gyntaf o'i gyfraniadau dysgedig mewn cylchgronau celfyddydol, yn *The Connoisseur*, a bu ei enw ymhlith cyfranwyr cyson y cylchgrawn hwnnw, ac yn *The Burlingtonn Magazine, Apollo, Art in America, The Athenaem, Reliquary and Illustrated Archaeologist*, ac eraill, hyd ei farwolaeth.

* * *

ERBYN 1905, 'roedd cyhoeddwyr a oedd yn arbenigo ar gyhoeddi cyfrolau, awdurdodol yn ei faes wedi nodi ei allu ac wedi trefnu iddo baratoi nifer o weithiau. Yr oedd un ohonynt, ar hen lestri aur Lloegr, yn waith arloesol yn y maes, ac yn brawf fod Alfred Jones yn cael ei dderbyn fel arbenigwr yng nghylchoedd cyfoethocaf Prydain, o'r teulu Brenhinol i lawr.

Yn wir datblygodd ei fri ar hyd y Cyfandir, hyd yn oed yn Rwsia, ac yn 1906 ymwelodd am y tro cyntaf â'r Unol



*Cwpan a phlât Cymun Aur, 1507-8, Coleg Corff Crist Rhydychen allan o "English Gold Plate" E. Alfred Jones*

Daleithau er mwyn gweld arddangosfa yn Amgueddfa'r Celfyddydau Cain yn Boston, Massachusetts.

Esgorodd yr ymweliad hwnnw ar berthynas arbennig iawn rhwng Alfred Jones a rhai o brifysgolion America, Yale yn hynod felly.

Yn 1906 gwelwyd cyfrol gyntaf Alfred Jones ac y mae gan Gymru le i ymfalchïo mai un ar lestri eglwysig Esgobaeth Bangor oedd honno, cyfrol a ddisgrifiwyd mewn adolygiad yn *The Athenaeum* fel y fwyaf diddorol o'r holl gyfrolau ar lestri eglwysig i weld golau dydd. Dyma restr o'r gweithiau yn ei faes arbennig i ymddangos cyn y Rhyfel Byd Cyntaf:

*The Church Plate of the Diocese of Bangor; Llundain, 1906.*
*Old English Gold Plate; Llundain, 1907.*
*The Old Church Plate of the Isle of Man; Llundain 1907.*
*Catalogue of the Collection of Old Plate of Leopold de Rothschild; Llundain 1907 (argraffiad preifat) (£75 1980/1)*
*An Illustrated Catalogue of the Gutman Collection of Old Plate, the property of the late J. Pierpoint Morgan; argraffiad preifat, 1907 (£100 1980/1)*
*Illustrated Catalogue of the Collection of Old Plate of J. Pierpoint Morgan: argraffiad preifat, 1908.*
*The Old Royal Plate in the Tower of London, including Old Silver Communion Vessels of the Chapel of St. PeterAd Vincula with the Tower; Rhydychen, 1908 (Argraffwyd 350 o gopiau gan wasg breifat J. Gwenogvryn Evans yn Rhydychen a bu hwnnw yn cynorthwyo gyda'r paratoadau).*
*The Old Silver Sacramental Vessels of Foreign Protestant Churches in England; Llundain, 1908.*
*The Old English Plate of the Emperor of Russia; Letchworth, 1909. (£100 1979/80).*
*The Old Plate of the Cambridge Colleges; Caergrawnt, 1910 (£50 1979/80).*
*The Gold and Silver of Windsor Castle; Letchworth, 1911 (285 o gopiau) (£130 1984/5).*
*The Catalogue of the Objects in Gold and Silver and the Limoges Enamels in the Collection of the Barmess James de Rothschild; Llundain, 1912. (£130 1982/3).*
*The Old Silver of American Churches; Letchworth, 1913 (argraffiad cyfyngedig wedi rhifo (£260 1979/80, $500 1981/2)*

Y mae darllen y tudalennau rhagarweiniol gan Alfred Jones yn y cyfrolau uchod yn brawf o ddyfnder a disgleirdeb ei ysgolheictod. Ei waith ef yw'r erthygl ar *Plate* yn argraffiad 1911 o'r Encyclopaedia Britannica. Yn 1913 lledaenodd ei adenydd trwy olygu cyfrol ar henebion Gogledd Cymru - Memorials of Old North Wales.

* * *

YN 1912 etholwyd Alfred Jones yn *Fellow-Commoner* yng Ngholeg Clare, Caergrawnt, ac yn 1915 cyflwynwyd gradd M.A. er anrhydedd iddo gan Brifysgol Rutgers (Talaith New Jersey) yn yr Unol Daleithau. Dair blynedd yn ddiweddarach cyflwynodd Prifysgol Cymru radd gyffelyb iddo.

Ymyrrodd y Rhyfel Byd Cyntaf â'i ymchwiliadau. Ymdrechodd i ymuno â'r Lluoedd Arfog ond fe'i cyfeiriwyd i wasanaethu'r Llywodraeth yn y Swyddfa Dramor, y Swyddfa Gartref a'r Adrannau Amddiffyn.

Gyda diwedd y rhyfel fe ryddhawyd Alfred Jones i ddychwelyd at ei hoff waith. At hynny yr oedd eisoes wedi cael blas ar ymchwil i hanes Unol Daleithau'r America ac yn ôl y dystiolaeth fe'i cofleidiwyd gan yr Americaniaid. 'Roedd ei wybodaeth a'i gyfraniadau mor nodedig yn ei briod faes nes penderfynodd Prifysgol Yale ei benodi yn Athro Cynorthwyol ac yn Guradur Mygedol yn ei Hamgueddfa i'r Celfyddydau Cain , yn 1930.

Yn ystod y dauddegau cyhoeddodd dair cyfrol ar lestri arian, dwy ohonynt o ddiddordeb arbennig ar draws Yr Iwerydd.

*Catalogue of the Collection of Old Plate of William Francis Farrer; Llundain 1924*
*Catalogue of the Collection of Old American Silver presented by Francis W. Garvan to Yale University (dim dyddiad)*
*Old Silver of Europe and America, from early times to the Nineteenth Century; Philadelphia, 1928 ($50, 1986)*

*I dud. 19*